Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC7: Cyflenwad tir ar gyfer tai

Cynllun i'w archwilio

gan y cyhoedd

Tachwedd 2025

CONWY

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

# Cynnwys

Cynnwys ..... 3
1 Cyflwyniad ..... 4
2 Ffynonellau Cyflenwad Tai ..... 5
2.1 Trosolwg o'r cyflenwad tai ..... 5
2.2 Cyflawniadau ..... 5
2.3 Ymrwymiadau ..... 5
2.4 Hap-safleoedd ..... 5
2.5 Dyraniadau ..... 7
3 Cywirdeb ac Ansicrwydd ..... 8
3.1 Cywirdeb data ..... 8
3.2 Osgoi cyfrif ddwywaith ..... 8
3.3 Rheoli ansicrwydd ..... 9
4 Y Cyfrifiad Cyflenwad Tai ..... 12
4.1 Cyflawniadau ..... 12
4.2 Ymrwymiadau ..... 12
4.3 Hap-safleoedd ..... 13
4.4 Dyraniadau ..... 14
4.5 Cyfanswm Darpariaeth Tai ..... 15
Appendix 1: Llwybr Tai ..... 16
Atodiad 2: Cyflawniadau ..... 18
Atodiad 3: Ymrwymiadau ..... 21
Atodiad 4: Hap-safle ..... 26
Atodiad 5: Dyraniadau ..... 28
Geirfa ..... 29

# 1 Cyflwyniad

Mae’r papur cefndirol hwn wedi’i gynhyrchu i gyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) Conwy i’w Archwilio gan y Cyhoedd, er mwyn darparu esboniad a chyfiawnhad ar gyfer y cyflenwad tai. Dylid darllen y papur cefndir ar y cyd â dogfennau perthnasol eraill, yn enwedig BP01: Adroddiad Opsiynau Lefel Twf. Dogfen dechnegol ydyw yn bennaf sy’n defnyddio data tai a gwblhawyd a’r CDLIN i’w Archwilio gan y Cyhoedd fel sail i gyfrifo ffynonellau cyflenwi tai tebygol dros gyfnod y cynllun.

Mae’r ddogfen hon yn rhoi manylion lefel y cyflenwad tai a ddisgwylir er mwyn ateb gofynion tai Conwy yn unig. Roedd y Strategaeth a Ffefrir yn cynnwys gofyniad o 4,300 o anheddau dros gyfnod y cynllun, gyda lefel wrth gefn o 20%.

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a chan ystyried y rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd diwygiedig (is) fel y'u nodir yn BP/1, cynigir gofyniad o 3,600 o anheddau nawr.  Gyda lwfans wrth gefn o 20%, mae'r CDLIN yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cyfanswm o 4,300 o anheddau.

Y bwriad yw gorgyflenwi mewn perthynas â'r gofyniad tai sylfaenol, er mwyn sicrhau bod 3,600 o anheddau yn cael eu darparu dros gyfnod y cynllun fel y manylir yn y taflwybr yn Atodiad 1.  Darperir y dull cyfrifo a’r cyfiawnhad dros y gofyniad tai hwn yn fwy manwl yn BP01.  Mae’r ffigwr uchod yn darparu lwfans ar gyfer 100 o anheddau yn yr ardal sy’n disgyn o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ym Mwrdeistref Sirol Conwy.

Mae sefyllfa’r cyflenwad tai a fanylir yn y papur cefndirol hwn yn adlewyrchu un pwynt mewn amser, yn seiliedig ar y data a oedd ar gael. Caiff y ddogfen ei diweddaru trwy gydol proses y CDLIN er mwyn adlewyrchu’r ffynonellau gwybodaeth diweddaraf, a’r wybodaeth fanylach sydd ar gael yn y CDLIN sydd ar ddod. Y prif ffynhonnell data ar gyfer y papur cefndir hwn yw'r arolygon tai a gynhaliwyd yng ngwanwyn 2025, gyda dyddiad sylfaen o 1 Ebrill 2025.

# 2 Ffynonellau Cyflenwad Tai

## 2.1 Trosolwg o’r cyflenwad tai

Disgwylir i ffynonellau amrywiol gyfrannu at y cyflenwad tai yn y CDLIN, a ceir crynodeb ohonynt isod:

**Cyflawniadau**. Anheddau sydd wedi’u cwblhau ers dechrau cyfnod y CDLIN.

**Ymrwymiadau**. Anheddau y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu dros gyfnod y CDLIN ar safleoedd mawr (y rheiny ag enillion net o 10 annedd neu fwy) gyda chaniatâd cynllunio.

**Hap-safleoedd**. Safleoedd heb eu neilltuo (tir llwyd yn aml) sy’n debygol o gael eu datblygu dros gyfnod y CDLIN.

**Dyraniadau**. Safleoedd i’w dyrannu ar gyfer datblygiad preswyl yn y CDLIN.

Gellir gweld llwybr cynhwysfawr sy’n rhoi manylion y cyfraniadau a wneir gan bob ffynhonnell yn Atodiad 1, tra bod esboniadau pellach o’r ffynonellau cyflenwi yn cael eu darparu isod.

## 2.2 Cyflawniadau

Dechreuodd Cyfnod Cynllun y CDLIN ym mis Ebrill 2018, felly bydd anheddau a gwblhawyd ers hynny yn rhan o ddarpariaeth tai'r CDLIN. Caiff nifer yr anheddau a gwblheir yn Ardal y Cynllun ei gyfrifo o arolygon safle a gwblheir yn flynyddol i hysbysu’r Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae hyn yn cynnwys anheddau ar safleoedd bach (<10) a safleoedd mawr (10+). Ers dechrau cyfnod y cynllun, cofnodwyd gwerth saith mlynedd o gyflawniadau. Mae manylion cwblhau tai ar safleoedd mawr i'w gweld yn Atodiad 2.

## 2.3 Ymrwymiadau

Mae anheddau ar safleoedd mawr gyda chaniatâd cynllunio y disgwylir iddynt gael eu hadeiladu yn ystod cyfnod y cynllun yn dod o dan y categori hwn (Atodiad 3). Mae hyn yn seiliedig ar asesiad realistig o'r tebygolrwydd o gyflawni ar safleoedd ymrwymedig yn dilyn trafodaeth a chytundeb gyda datblygwyr perthnasol. Nid yw safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio presennol ond dim gweithgaredd am gyfnodau estynedig, neu obaith bach o ddatblygiad yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun wedi'u cynnwys yn y ffigurau cwblhau disgwyliedig ar gyfer y CDLIN.

Nid yw safleoedd bach gyda chaniatâd cynllunio yn cael eu cynnwys yn y ffigwr ymrwymiadau. Mae'r rhain wedi'u dewis fel hap-safleoedd bach.

## 2.4 Hap-safleoedd

Mae hap-safleoedd yn cyfeirio at safleoedd sydd heb eu dyrannu ond y disgwylir iddynt gael eu datblygu dros gyfnod y cynllun. Fel arfer – ond nid bob tro - safleoedd tir llwyd mewn ardaloedd adeiledig yw’r rhain. Cyfrifir y cyfraniad i'w wneud o hap-safleoedd yn wahanol yn dibynnu ar faint y safle, ond mae'n defnyddio'r 10 mlynedd blaenorol a gyfrifwyd ar gyfer y nifer a ragwelir o anheddau a gwblhawyd dros gyfnod y CDLIN.

**Safleoedd bach** – Fel y soniwyd uchod, caiff cyfraniad safleoedd bach at y cyflenwad tai (enillion net o <10 annedd) ei gyfrifo'n seiliedig ar safleoedd bach a gwblhawyd yn y gorffennol gan ddefnyddio cyfraddau adeiladu tai hanesyddol.

**Safleoedd mawr** - Yn ogystal â'r safleoedd hynny sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn barod a safleoedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer datblygiad preswyl, mae'n debygol y caiff nifer o safleoedd mawr eraill eu dwyn ymlaen ar gyfer tai - yn fwyaf tebygol trwy ailddatblygu trefol. Ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2013, mae wedi bod yn amlwg bod hap-safleoedd mawr fel hyn wedi ffurfio rhan bwysig o'r cyflenwad tai (Atodiad 4) a disgwylir iddynt barhau i wneud hynny yn ystod cyfnod y CDLlN. Bydd cyfradd cyflwyno safleoedd fel hyn dros y pum mlynedd diwethaf yn cael ei defnyddio i ragamcanu ymlaen ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun er mwyn darparu amcan o gyfraniad hap-safleoedd mawr i'r cyflenwad tai.

Tybir mai hap-safleoedd mawr yw'r rheini ar gyfer 10+ o anheddau nad oeddent wedi'u dyrannu i'w datblygu, ond lle'r oedd egwyddor datblygu preswyl yn cael ei hystyried yn dderbyniol, beth bynnag am y sefyllfa o ran y cyflenwad o dir ar gyfer tai. Mae'n bwysig nodi na fydd y cyfrifiad hwn yn cynnwys yr hap-safleoedd hynny a gymeradwywyd oherwydd diffyg cyflenwad tir, gan fod y rhain yn cael eu datblygu yn groes i bolisi'r CDLl.

Mae cyfyngiadau sylweddol yn nwyrain y sir yn golygu nad yw datblygiad hap-safle mawr yn debygol o ddigwydd yn y dyfodol agos. Mae datblygiad hap-safle (bach a mawr) yn Nhowyn a Bae Cinmel wedi bod yn isel iawn am nifer o flynyddoedd oherwydd pryderon risg llifogydd ac mae hyn yn debygol o barhau. Yn Abergele yn y cyfamser, mae materion capasiti priffyrdd yng nghanol y dref yn golygu fod cyfraddau hanesyddol o ddatblygiadau hap-safleoedd mawr yn annhebygol o gael ei ailadrodd o fewn Cyfnod y Cynllun. Am y rheswm hwn, mae'r ffigwr hap-safleoedd mawr a fyddai fel arall wedi cael ei briodoli i'r ardal hon wedi'i ostwng i 0. Nid yw'r cyfyngiadau yn cael eu hystyried i effeithio ar y raddfa o ddatblygiadau hap-safleoedd bach yn yr un ffordd, gydag effaith datblygiadau bach ar y rhwydwaith priffyrdd yn ddibwys. Disgwylir i ddatblygiadau hap-safleoedd ar raddfa fach yn Abergele a Llanddulas barhau.

Yn hanesyddol, mae'r ardal strategaeth datblygu gwledig (gyda rheswm da) wedi cefnogi lefelau isel iawn o ddatblygu hap-safleoedd mawr. Mae mwyafrif helaeth y datblygiadau yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig ar safleoedd bach. Ailddatblygiad diweddar yn Llanrwst yw'r unig hap-safle mawr i gael ei gwblhau yn yr ardal wledig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd yn cynnwys ailddatblygu 30 o fflatiau yn 14 o dai, felly arweiniodd at golled net o 16 o anheddau. Wrth gwrs, mae'r golled hon wedi'i hystyried yn y ffigurau cyflawniadau (Atodiad 2). Oherwydd unigrywiaeth y datblygiad hwn, ni ystyrir ei bod yn briodol defnyddio hyn fel sail ar gyfer cyfrifo datblygu hap-safle mawr yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig. Byddai gwneud hynny'n arwain at golled net mewn datblygu hap-safle mawr am weddill y CDLlN. Felly, tybir bod y cyflenwad hap-safleoedd mawr a ragwelir yn yr Ardal Strategaeth Datblygu Gwledig yn 0.

## 2.5 Dyraniadau

Bydd y CDLIN i’w archwilio gan y cyhoedd yn cynnwys nifer o ddyraniadau i ffurfio rhan fawr o’r gofyniad tai dros gyfnod y cynllun. Nodwyd pedwar safle strategol allweddol yn Llanfairfechan, Deganwy/Llanrhos, Hen Golwyn a Llanrwst yn y Strategaeth a Ffefrir. Mae'r rhain yn cael eu hategu gan safleoedd ychwanegol yn Llandudno, Cyffordd Llandudno a Llandrillo-yn-Rhos yn y Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd.

Yn unol â chanllawiau yn y DPM, ni ddylid symud ymlaen dyraniadau CDLl blaenorol i'w hailddyrannu oni bai bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at gyflawni safleoedd. Mae pedwar dyraniad CDLl cyfredol wedi'u nodi fel safleoedd 'yn yr arfaeth' lle mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud gyda cheisiadau cynllunio wedi'u cyflwyno. Oherwydd amserlenni'r ceisiadau, rhagwelir y byddant wedi derbyn caniatâd cynllunio a'u cynnwys fel Ymrwymiadau yn y CDLIN trwy fabwysiadu, fodd bynnag, maent wedi'u cynnwys yng nghyflenwad tai'r CDLIN i’w archwilio gan y cyhoedd fel dyraniadau i sicrhau bod niferoedd y tai yn cael eu cofnodi.

Mae un safle arall sydd wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd (Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos) wedi'i symud ymlaen i'w ailddyrannu fel safle Tai Fforddiadwy 100%. Mae hyn oherwydd bod cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, a disgwylir cais cynllunio cyn bo hir.

# 3 Cywirdeb ac Ansicrwydd

I sicrhau bod y cyfrifiad cyflenwad tir mor gywir ac y gellir ei gyflawni yn realistig, mae'n bwysig sicrhau bod y data a ddefnyddir yn y dadansoddiad mor gyflawn ag sy'n bosibl; ac ystyried materion ehangach ac unrhyw ansicrwydd a allai effeithio ar dueddiadau adeiladu tai. Mae'r adran hon yn amlinellu'r mesurau sydd wedi cael eu defnyddio i ostwng y siawns o anghywirdeb.

## 3.1 Cywirdeb data

Mae'r arolygon tai blynyddol yn ffurfio sail i lawer o'r data cyflenwad tai. Yn arbennig o ran o ffigyrau cwblhau a chyfraddau adeiladu tai rhagamcanol ar safleoedd mawr. Mae arolygon yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar bob safle sydd â chaniatâd preswyl i gyfrif nifer y tai a gwblhawyd dros y 12 mis blaenorol. Lle bo hynny'n angenrheidiol, gwneir gwiriadau gyda'r gwasanaeth Rheoli Adeiladu i ganfod a yw'r datblygiad wedi cychwyn – yn arbennig mewn cysylltiad â gwaith trosi neu is-raniadau lle gall fod yn anodd cadarnhau bod gwaith wedi dechrau wrth ymweld â safle. Er hynny, mae'n bosibl bod rhai gwallau yn bodoli yn y data, ond mae'r rhain yn debygol o fod yn fach ac o gael ychydig iawn o effaith ar y cyflenwad cyffredinol a dylai'r hyblygrwydd yn y cyflenwad tai y cyfeirir ato yn 3.3 fod yn ddigonol i fynd i'r afael â hyn.

## 3.2 Osgoi cyfrif ddwywaith

Oherwydd y gwahanol ffynonellau cyflenwad tai fel y disgrifiwyd eisoes, mae'n bwysig sicrhau nad oes unrhyw anheddau yn cael eu cyfrif fwy nag unwaith. Er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith, mae'r ffynonellau cyflenwad tai wedi cael eu dosbarthu fel y dangosir yn Nhabl 1 isod, sy'n amlygu unrhyw feysydd lle mae perygl i gategorïau orgyffwrdd a fyddai'n arwain at gyfrif cyflenwad tai ddwywaith.

**Tabl 1: Ffynonellau Cyflenwad Tai**

| Amserlen | Maint safle | Categori | Ffynonellau data |
|---|---|---|---|
| Adeiladwyd | Pob un | Cyflawniadau | Data arolwg safle o 1/4/2018 i 31/3/2025 |
| Rhagolygon | Bach | Hap-safleoedd | Data cwblhau safleoedd bach o 1/4/2015-31/3/2025 wedi'i ragweld ymlaen i ddiwedd cyfnod y cynllun |
| | Mawr | Ymrwymiadau | Amserlenni darparu tai a ddisgwylir ar safleoedd mawr gyda chaniatâd cynllunio |
| | | Hap-safleoedd | Data cwblhau safleoedd mawr o 1/4/2015-31/3/2025 wedi'i ragweld ymlaen i ddiwedd cyfnod y cynllun |
| | | Dyraniadau | CDLIN i'w Archwilio |

Ar ddyddiad sylfaenol unrhyw adroddiad cyflenwad tai, bydd ffynonellau cyflenwi sy'n cyfrannu at gyfansymiau tai y CDLIN naill ai wedi cael eu hadeiladu yn ystod cyfnod y Cynllun cyn y dyddiad hwnnw, neu wedi'u rhagamcanu i'w cwblhau yn ystod gweddill cyfnod y Cynllun. Bydd y tai hynny sydd wedi cael eu hadeiladu, boed ar safleoedd bach neu fawr, yn cael eu cyfrif fel rhan o ffigyrau cwblhau sy'n gwbl hysbys o'r broses arolwg yn unig. Hyd yn oed os oes cais dilynol wedi'i gymeradwyo ar safle a gwblhawyd, dim ond y newid net mewn unrhyw ddatblygiad fyddai'n cael ei

gymryd i ystyriaeth felly ni ystyrir bod unrhyw risg o gyfrif ffigyrau cwblhau ddwywaith.

Mae rhai safleoedd yn disgyn mewn mwy nag un categori, ond yn yr achos hwn bydd anheddau unigol yn dal i gael eu cyfrif unwaith. Er enghraifft, os oes safle mawr ar ganol cael ei adeiladu, efallai y bydd rhai anheddau wedi'u cwblhau, tra bo anheddau eraill ar y safle yn cyfrannu at elfen ymrwymiadau y cyflenwad. Mewn amgylchiadau fel hyn, mae'r tablau yn Atodiadau 2 a 3 yn gwahaniaethu'n glir rhwng anheddau sydd wedi'u cwblhau ar y safle, a'r rheiny sydd wedi'u rhagamcanu i'w cwblhau mewn blynyddoedd dilynol.

Disgwylir i fwyafrif y cyflenwad tai CDLIN ddod o ddatblygiad a ragamcanir, h.y. ymrwymiadau, hap-safleoedd a safleoedd dynodedig. Mae'r amcangyfrif ar gyfer cyflenwi safleoedd bach yn y dyfodol yn seiliedig ar dueddiadau adeiladu tai. Cyn belled a bo'r cyfnod a gwmpesir gan y tuedd adeiladu tai a ragamcanir yn rhedeg tan ddiwedd cyfnod y CDLIN ac nad yw'n gorgyffwrdd â data cwblhau blaenorol, ni fydd unrhyw safleoedd bach yn cael eu cyfrif ddwywaith.

Y cyflenwad tai a ddisgwylir ar safleoedd mawr sydd â'r potensial mwyaf o gael eu cyfrif ddwywaith, oherwydd y gwahanol fathau o safleoedd sy'n disgyn i'r categori hwn. Mae Ymrwymiadau, Hap-safleoedd Mawr a Dyraniadau i gyd yn cyfrannu at gyflenwi tai ar safleoedd 10+ o anheddau yn y dyfodol. Nid oes angen i safleoedd ymrwymiadau gael eu dyrannu yn y CDLIN, felly ni ddylai cyfrif ddwywaith fod yn broblem rhwng y categorïau hyn.

Mae angen cymryd mwy o ofal wrth groesi drosodd rhwng hap-safleoedd mawr a safleoedd ymrwymedig. Caiff tai a gwblhawyd yn y gorffennol ar safleoedd sy'n cael eu dosbarthu fel hap-safleoedd mawr eu defnyddio i gyfrifo cyfraniad blynyddol dros weddill cyfnod y Cynllun, yn debyg iawn i'r dull a ddefnyddir ar gyfer hap-safleoedd. Ystyrir bod rhai safleoedd ymrwymedig hefyd yn hap-safleoedd mawr, fodd bynnag. Yn unol â'r canllawiau yn y DPM, nid yw trywydd tai'r CDLIN yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau mawr am y ddwy flynedd gyntaf ar ôl eu mabwysiadu, gan y tybir y byddai gan y safleoedd mawr hyn ganiatâd cynllunio eisoes ac felly'n cael eu cynnwys yn yr Ymrwymiadau.

## 3.3 Rheoli ansicrwydd

Data cyflenwi o dai a gwblhawyd yw'r unig elfen sicr o gyflenwad tai yn y CDLI. Mae'r holl ffigyrau a ragamcanir ar gyfer tai a gwblhawyd yn cael eu hamcangyfrif yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf a mwyaf priodol sydd ar gael a nifer o ymhoniadau yn ymwneud â chyflenwi tai yn y dyfodol. Hyd yn oed gyda'r data diweddaraf sydd ar gael, mae'r ffigyrau hyn yn dal i fod yn amcangyfrifon ac yn annhebygol o fod yn 'gywir' yn yr ystyr gaeth. Ond wrth i fwy o ddata ymddangos, ailedrychir ar y cyfrifiad cyflenwad tai yn aml a caiff ei ailraddnodi, er mwyn ei wneud yn fwy cywir dros amser.

Mae cwblhau disgwyliedig ar safleoedd ymrwymedig a dyrannedig wedi'u hamcangyfrif a'u cytuno trwy drafodaeth a chytundeb â budd-ddeiliaid perthnasol, a ddylai ddarparu amcangyfrif eithaf cadarn o gyfraddau cwblhau ar y safleoedd hyn. Yn ôl eu natur, mae cyflenwad hap-safleoedd yn anrhagweladwy ac mae adeiladau

a gwblhawyd yn y gorffennol yn dangos bod cyfraddau adeiladu tai wedi codi a gostwng llawer.

Disgwylir i ddatblygiadau ar hap-safleoedd bach a mawr barhau yn unol â’r tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf fel y manylir yn adrannau 2.4 a 4.3. Y cyflenwad a ragamcanir ar hap-safleoedd bach yw 70 annedd y flwyddyn. Mae'r ffigwr hwn llawer yn is ac yn cael ei ystyried yn fwy realistig na'r amcangyfrif o 125 annedd a gynhwysir yn y cyfrifiad cyflenwad tai a gafwyd yn y CDLl blaenorol. Fel y gofynion tai a oedd yn sail i dwf y CDLl, roedd hyn yn cymryd yn ganiataol y byddai'r cyfnod o adeiladu tai cyflym yn parhau oherwydd amseriad y data a oedd ar gael.

Mae disgwyl i hap-safleoedd mawr ddarparu oddeutu 80 o anheddau y flwyddyn (adran 4.3), er y bydd y cyfraniad hwn yn dod o’r hap-safleoedd mawr hynny sydd eisoes yn ymrwymedig, h.y. gyda chaniatâd cynllunio presennol, dros y blynyddoedd nesaf. Mae datblygiadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) wedi creu cyfran sylweddol o hap-safleoedd mawr, ac yn aml cyllid grant yw’r allwedd i’r cyflenwad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi darparu cyfran gynyddol o hap-safleoedd mawr yng Nghonwy ac wedi bod yn gyfrifol am ailddatblygu nifer fawr o safleoedd tir llwyd. Mae hyn eisoes wedi cael ei ystyried fel rhan o broses y CDLlN, a bwriedir diwygio polisïau tai er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig gyflwyno cynlluniau tai fforddiadwy heb orfod cystadlu am dir gydag adeiladwyr tai preifat. Tybir y bydd y newid polisi hwn yn cefnogi darpariaeth tai gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac yn helpu i wrthbwyso newidiadau i'r model ariannu, er mwyn cynnal lefel y ddarpariaeth tai ar hap-safleoedd mawr.

Honnir bod cyfraniad safleoedd dyranedig at y cyflenwad tai yn realistig, ac mae dau ffactor allweddol yn effeithio ar yr honiad hwn. Yn gyntaf, p’un a fydd y safleoedd yn cael eu cyflwyno ar y gyfradd a ddisgwylir yn y CDLlN, ac yn ail a fydd nifer yr anheddau a briodolir i safleoedd strategol unigol (yn ogystal â’r rheiny a nodir yn y cynllun i’w archwilio can y cyhoedd) yn cael eu cyflawni yn ymarferol.

Mae nifer o ddyraniadau CDLl wedi methu â chael eu dwyn ymlaen i'w datblygu o gwbl, ac o’r rheiny a adeiladwyd, mae nifer wedi darparu llai (ond mewn rhai achosion mwy) o anheddau nag y dynodwyd ar gyfer y safleoedd. Mae gallu cyflawni safleoedd dyranedig yn broblem a amlygwyd eisoes trwy Adroddiadau Monitro Blynyddol Conwy, hefyd trwy Astudiaeth (2017) Arcadis[1], a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Dylai mwy o ‘flaen-lwytho’ asesiadau safle sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru[2] ddarparu mwy o sicrwydd ynghylch cyflenwi tai ar safleoedd a ddyrannwyd yn y CDLlN.

Mae’r anghysondeb mewn niferoedd tai ar safleoedd dynodedig CDLl wedi'i briodoli i ychydig o resymau allweddol: cyfyngiadau fel topograffi, tirwedd a dyraniadau hanesyddol heb eu hystyried yn llawn wrth gyfrifo niferoedd tai. Gall cyflwyno gofynion Systemau Draenio Cynaliadwy yn ddiweddar hefyd olygu bod angen

---

[1] Astudiaeth Hyfywedd Hydredol o’r Broses Gynllunio gan Arcadis, ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-10/astudiaeth-hyfywedd-or-broses-gynllunio.pdf

[2] Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12, ar gael o: https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

cymryd tir sylweddol ar gyfer pyllau gwanhau a phantiau ac ati, fodd bynnag, bydd effaith hyn ar gynllun unigol yn dibynnu ar gyflwr y ddaear. Mae’n amlwg bod yn rhaid i safleoedd a ddyrennir yn y CDLlN wneud cyfraniad realistig at y cyflenwad tai dros gyfnod y Cynllun, gan gymryd i ystyriaeth y cyfyngiadau uchod.

Mae amcangyfrifon o'r angen o ran tai a’r cyflenwad tai wedi eu seilio ar dueddiadau diweddar ac yn cymryd y bydd twf economaidd dros gyfnod y CDLlN yn debyg neu ychydig yn gryfach nag y bu dros y blynyddoedd diwethaf. Byddai gan ddylanwadau allanol mawr sydd y tu hwnt i reolaeth awdurdodau lleol y potensial i amharu’n sylweddol ar lefel twf. Gallai’r ysgytiadau hyn cael eu sbarduno gan helbulon gwleidyddol, economaidd neu amgylcheddol, er enghraifft materion yn gysylltiedig â Brexit, yr economi ryngwladol neu newid hinsawdd.

Yn y pen draw, ni all y CDLlN obeithio cynllunio ar gyfer pob digwyddiad posibl. Fodd bynnag trwy ymgymryd â chymaint o’r gwaith ag y gellir ei gyflawni o fewn rheswm i sicrhau bod modd cyflawni safleoedd dynodedig, a thrwy gynnwys lefel wrth gefn o 20% yn y gofyniad tai, dylid creu digon o hyblygrwydd yn y CDLlN i ymdrin ag ystod o sefyllfaoedd. Mae’r lefel wrth gefn hon, yn ogystal â'r gofyniad tai gwaelodlin o 3,600 o anheddau yn orgyflenwad, a bwriad hyn yw nid yn unig ymdrin â materion ansicrwydd, ond hefyd annog cystadleuaeth rhwng perchnogion tir i wella hyfywedd safleoedd datblygu.

Rhaid cydnabod fodd bynnag nad yw’r awdurdod yn adeiladu tai ei hun a’i fod yn ddibynnol ar ffactorau allanol, boed hynny yn y sector preifat neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, i ddarparu’r anheddau y mae’r CDLlN yn cynllunio ar eu cyfer. Os methir â chyflwyno safleoedd dynodedig, am resymau y tu hwnt i reolaeth Conwy, nid oes llawer y gall yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei wneud i gyflawni dyheadau'r cynllun datblygu. Byddai pwerau cryfach i Awdurdodau Cynllunio Lleol, megis proses symlach ar gyfer Gorchmynion Prynu Gorfodol i safleoedd a ddynodwyd mewn cynllun datblygu, neu gosb ariannol ar ffurf treth tir gwag fel a ystyriwyd yn flaenorol gan LlC, yn helpu i sicrhau bod safleoedd dynodedig yn cael eu cyflenwi ac yn gostwng ansicrwydd mewn CDLlau.

# 4 Y Cyfrifiad Cyflenwad Tai

Wrth gyfuno holl ffrydiau'r adrannau blaenorol, mae'r tabl isod yn dangos y cyfrifiadau ar gyfer pob ffynhonnell cyflenwad tai i CDLIN Conwy, ar 1 Ebrill 2025. Sylwch, oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â rhagamcanion cwblhau tai, mae rhai ffigyrau wedi eu talgrynnu er mwyn osgoi awgrymu lefel o gywirdeb nad yw'n bodoli. Gweler yr atodiadau i gael rhagor o fanylion.

## 4.1 Cyflawniadau

| Cyflawniadau 2018-33 | Y Gorllewin | Y Creuddyn | Y Canol | Y Dwyrain | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Safleoedd bach | 30 | 94 | 133 | 33 | 67 | **356** |
| Safleoedd mawr | 54 | 382 | 309 | 340 | -16 | **1,069** |
| **Cyfanswm** | **84** | **476** | **442** | **373** | **51** | **1,426** |

## 4.2 Ymrwymiadau

| Cyflawniadau a ddisgwylir yn ystod y flwyddyn | Y Gorllewin | Y Creuddyn | Y Canol | Y Dwyrain | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2025-26 | 25 | 67 | 60 | 49 | 0 | **201** |
| 2026-27 | 10 | 173 | 123 | 47 | 14 | **367** |
| 2027-28 | 23 | 11 | 34 | 46 | 0 | **114** |
| 2028-29 | 0 | 0 | 23 | 59 | 0 | **82** |
| 2029-30 | 0 | 0 | 23 | 11 | 0 | **34** |
| 2030-31 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | **11** |
| 2031-32 | 0 | 0 | 0 | 11 | 0 | **11** |
| 2032-33 | 0 | 0 | 0 | 6 | 0 | **6** |
| **Cyfanswm** | **58** | **251** | **263** | **240** | **14** | **826** |

## 4.3 Hap-safleoedd

| Cyflawniadau hap-safleoedd | Y Gorllewin | Y Creuddyn | Y Canol | Y Dwyrain | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth hap-safleoedd bach 2015-25 | 51 | 155 | 208 | 58 | 101 | **572** |
| Blynyddol ar gyfartaledd | 5.1 | 15.5 | 20.8 | 5.8 | 10.1 | **57.2** |
| **Hap-safleoedd bach a ddisgwylir 2025-33** | **41** | **124** | **166** | **46** | **81** | **458** |
| Darpariaeth hap-safleoedd mawr 2018-25 | 57 | 120 | 275 | 74 | -16 | **510** |
| Blynyddol ar gyfartaledd | 5.7 | 12.0 | 27.5 | 0.0 | 0.0 | **45.2** |
| **Hap-safleoedd mawr a ddisgwylir 2025-33** | **34** | **72** | **165** | **0** | **0** | **271** |
| **Cyfanswm hap-safleoedd a ddisgwylir 2025-33** | **75** | **196** | **331** | **46** | **81** | **730** |


## 4.4 Dyraniadau

| Enw safle | Cyfanswm 2025-2033 | Unedau y tu hwnt i gyfnod y cynllun |
|---|---|---|
| Caeffynnon, Llanfairfechan | 145 | 0 |
| Parc Penmaen, Llanfairfechan (safle yn yr arfaeth) | 56 | 0 |
| **Cyfanswm y Gorllewin** | **201** | **0** |
| Llanrhos | 140 | 0 |
| Queens Road, Llandudno | 70 | 0 |
| Nant y Coed, Cyffordd Llandudno | 50 | 0 |
| Lôn Derwen, Bae Penrhyn (safle yn yr arfaeth) | 152 | 0 |
| **Cyfanswm y Creuddyn** | **412** | **0** |
| Fferm Peulwys, Hen Golwyn | 250 | 50 |
| Dinerth Road, Llandrillo-yn-Rhos | 50 | 0 |
| Heol Dirion, Bae Colwyn (safle yn yr arfaeth) | 28 | 0 |
| **Cyfanswm y Canol** | **328** | **50** |
| Fferm Tandderwen, Ffordd Llan Sain Siôr | 277 | 0 |
| **Cyfanswm y Dwyrain** | **277** | **0** |
| Penloyn, Llanrwst | 100 | 0 |
| **Cyfanswm Gwledig** | **100** | **0** |
| **Cyfanswm** | **1318** | **50** |

## 4.5 Cyfanswm Darpariaeth Tai

| Cydrannau Cyflenwad Tai | Y Gorllewin | Y Creuddyn | Y Canol | Y Dwyrain | Gwledig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm a gyflawnwyd (bach a mawr) | 84 | 476 | 442 | 373 | 51 | 1,426 |
| Unedau'n cael eu hadeiladu | 42 | 167 | 100 | 66 | 0 | 375 |
| Unedau gyda chaniatâd cynllunio | 16 | 84 | 163 | 174 | 14 | 451 |
| Dyraniadau tai newydd | 201 | 412 | 328 | 277 | 100 | 1,318 |
| Hap-safleoedd mawr (10+) | 34 | 72 | 165 | 0 | 0 | 271 |
| Hap-safleoedd bach (<10) | 41 | 124 | 166 | 46 | 81 | 458 |
| Cyfanswm darpariaeth tai | **418** | **1,335** | **1,364** | **936** | **246** | **4,300** |

## Appendix 1: Llwybr Tai



| | Blwyddyn y CDLl | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Blwyddyn | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 | 2029-30 | 2030-31 | 2031-32 | 2032-33 |
| B | Y blynyddoedd sy'n weddill | 15 | 14 | 13 | 12 | 11 | 10 | 9 | 8 | 7 | 6 | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 |
| C | Cyfanswm nifer y tai wedi eu darparu | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 | 4,300 |
| D | Cyfanswm y galw am dai yn y CDLl | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 | 3,600 |
| E | Nifer y tai wedi eu cwblhau mewn gwirioned ar safleoedd mawr yn ystod y flwyddyn | 218 | 154 | 111 | 316 | 137 | 95 | 38 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| F | Nifer y tai wedi eu cwblhau mewn gwirioned ar safleoedd bach yn ystod y flwyddyn | 83 | 46 | 38 | 46 | 52 | 47 | 45 | - | - | - | - | - | - | - | - |
| G | Dyraniadau | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 182 | 292 | 255 | 217 | 210 | 162 |
| H | Datblygiadau banc tir y rhagwelir eu cwblhau | - | - | - | - | - | - | - | 201 | 367 | 114 | 82 | 34 | 11 | 11 | 6 |
| I | Hap-safleoedd mawr | - | - | - | - | - | - | - | - | - | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 | 45 |
| J | Hap-safleoedd bach | - | - | - | - | - | - | - | 57 | 57 | 57 | 57 | 57 | 57 | 57 | 57 |
| K | Cyfanswm y tai wedi eu cwblhau | 301 | 200 | 149 | 362 | 189 | 142 | 83 | 258 | 424 | 399 | 477 | 392 | 331 | 324 | 271 |
| L | Cyfradd adeiladu flynyddol ddisgwyliedig | 301 | 200 | 149 | 362 | 189 | 142 | 83 | 195 | 321 | 301 | 360 | 296 | 250 | 245 | 205 |
| M | Cyfanswm cronnus y safleoedd a gwblhawyd | 301 | 501 | 650 | 1,012 | 1,201 | 1,343 | 1,426 | 1,621 | 1,942 | 2,244 | 2,604 | 2,901 | 3,151 | 3,395 | 3,600 |
| N | Datblygiadau tai eto i'w cwblhau | 3,299 | 3,099 | 2,950 | 2,588 | 2,399 | 2,257 | 2,174 | 1,979 | 1,658 | 1,356 | 996 | 699 | 449 | 205 | - |

## Atodiad 2: Cyflawniadau

